

Sioe sleidiau B

HER BWYD FYD-EANG



Adnoddau'r Her Bwyd Fyd-eang ar gyfer disgyblion 7-11 oed



OXFAM

SESIWN PEDWAR



BETH YW CADWYN GYFLENWI FYD- EANG?



OXFAM

Beth yw cadwyn cyflenwi bwyd?

Y gadwyn o gamau y mae cynnyrch yn eu dilyn – o dyfu cnwd (neu ddeunydd crai) (er enghraifft mefus) i gynnyrch terfynol mewn siop (er enghraifft jar o jam mefus). Ym mhob cam mae'r cynnyrch yn cael ei brynu a'i werthu rhwng pobl. Mae cynnyrch yn dilyn gwahanol brosesau cyn dod yn gynnyrch terfynol.



Ydy eich cadwyn gyflenwi yn gywir?

Gweithiwr pigo mefus ym Moroco



Perchennog planhigfa fefus



Cwmni allforio



Cwmni mewnforio



Archfarchnad yn y DU



Defnyddiwr



Y Grŵp Gwell Mefus



Y Fenter Masnachu Moesegol



OXFAM

Pwyntiau trafod

- Pam y mae'n cael ei alw'n 'gadwyn gyflenwi'?
- Yn eich barn chi, pwy sy'n ennill y mwyaf/y lleiaf o arian o fewn y gadwyn gyflenwi?
- Ydy'r gadwyn gyflenwi hon yn deg yn eich barn chi? Pam/ Pam ddim?
- Sut y gallai'r gadwyn gyflenwi hon fod yn fwy teg?
- A oes gennych swyddogaeth bersonol o fewn y gadwyn gyflenwi hon?
- A oes gennych unrhyw ddylanwad neu reolaeth dros y gadwyn gyflenwi hon?
- Pa gadwyni cyflenwi eraill yr ydych yn rhan ohonynt?



A allwch greu cadwyn o bapur i ddangos y modd y mae mefus yn symud i lawr y gadwyn gyflenwi?

Mae gweithwyr pigo mefus yn gweithio o dan amodau anodd ar blanhigfa fefus ym Moroco.

Mae perchenogion y blanhigfa yn gwerthu'r mefus i allforwyr er mwyn cludo'r cynnyrch i Ewrop.

Pan fydd y mefus yn cyrraedd Ewrop mae mewnforyr yn eu prynu ac yn eu dosbarthu i'r DU.

Mae'r archfarchnadoedd yn gwerthu'r mefus i ddefnyddwyr fel fi.




SESIWN PUMP YDY BWYD YN DEG?



OXFAM

A allwch drechu'r system?

- Rydych yn ffermwr ar raddfa fach sy'n tyfu cnydau yn Kenya.
- India-corn yw'r prif gnwd. Faint y gallwch ei gynhyrchu?
- Pa heriau yr ydych yn eu hwynebu?
- A allech drechu'r system fwyd fyd-eang?



SESIWN CHWECH: CYMRYD CAMAU



Sam Baguette/ Oxfam



OXFAM

Beth yw'r heriau o fewn y system fwyd fyd-eang?




A allai'r system fwyd fyd-eang fod yn fwy teg? Pwy allai wneud rhywbeth? Beth y gallent ei wneud?

- Edrychwch ar yr enghreifftiau o'r hyn y gallai gwahanol grwpiau ei wneud er mwyn sicrhau bod y system fwyd yn fwy teg.
- Mae angen i chi benderfynu pa gamau fyddai'n sicrhau'r *effaith fwyaf* yn eich barn chi a nodi PAM.
- Gallwch ddefnyddio'r llinell effaith i'ch helpu ...



Ble ar y llinell y mae eich enghraifft?

**Effaith
fach**



**Effaith
fawr**



Beth yw effaith y camau gweithredu?

Penderfynwch a oedd yr effaith yn **fawr** neu'n **fach**.

Mawr: mae'n cael effaith fawr ac **uniongyrchol** o ran sicrhau bod y system fwyd yn fwy teg.

Bach: mae'n cael effaith fach ac **uniongyrchol** o ran sicrhau bod y system fwyd yn fwy teg.

Ystyriwch hefyd a fydd y camau gweithredu:

- *Yn helpu pobl yn uniongyrchol*
- *Yn helpu pobl yn anuniongyrchol (gan amlaf bobl sy'n byw ymhellach i ffwrdd o'r cam gweithredu)*
- *Yn helpu pobl nawr*
- *Yn helpu pobl yn y dyfodol*
- *Yn helpu rhai pobl*
- *Yn helpu llawer o bobl*



Beth y gallech ei wneud?

Gallwch gymryd camau i feithrin ymwybyddiaeth o'r **her fwyd fyd-eang**.

Pa gamau y gallech eu cymryd?



Dyma rai syniadau ...

Dyluniwch boster i hysbysu pobl am yr heriau y mae ffermwyr ar raddfa fach ar draws y byd yn eu hwynebu.

Dysgwch ragor am y bwyd yn eich ysgol.
O ble y mae'n dod?
A yw'n fwyd Masnach Deg?

Anogwch lai o wastraff a llai o ddeunydd pecynnu o ran bwyd yn eich ysgol (Bydd hyn yn helpu i leihau eich ôl-troed carbon):-

Crëwch arddangosfa yn eich ystafell ddosbarth am broblem fwyd o'ch dewis chi.

Arddangoswch gadwyn bapur yn eich ystafell ddosbarth i ddangos sut y mae cadwyn gyflenwi yn gweithio

Rhowch gyflwyniad mewn gwasanaeth i rannu'r hyn rydych wedi'i ddysgu am broblemau bwyd byd-eang.

Ysgrifennwch at eich archfarchnad leol i rannu eich pryderon am yr heriau y mae ffermwyr ar raddfa fach a gweithwyr yn eu hwynebu ar ddechrau cadwyni cyflenwi byd-eang.

Yn yr archfarchnad allwch chi weld o leiaf un cynnyrch o bob cyfandir? Allwch chi weld unrhyw gynnyrch Masnach Deg?

Sefydlwch ardd gymunedol yn eich ysgol. Allwch chi leihau eich milltiroedd bwyd? Allwch chi gynhyrchu bwyd yn lleol?

Dewch i wybod mwy am ffermio yn y DU.
Pa gnydau sy'n cael eu cynhyrchu?
Pa heriau y mae ffermwyr yn eu hwynebu?
Allech chi drefnu bod ffermwr lleol yn dod i siarad â'ch dosbarth?

